

Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Dinas Bae Abertawe

Rhifyn 01

Llythyr Newyddion - Hydref 2016



Croeso i rifyn cyntaf Llythyr Newyddion Chwarterol Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe, sy'n gweithio ar ran Bwrdd Dinas-ranbarth Bae Abertawe i sicrhau bod cyllid yr Undeb Ewropeaidd yn cael yr effaith fwyaf posibl.

Yn y Rhifyn Hwn

- iMap Bae Abertawe
- Fargen Ddinesig 'Arfordir y Rhyngwyd'
- Arloesedd ym maes Ynni
- Cwestiynau Cyffredin wedi'r Refferendwm
- Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol
- Adolygu'r Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd
- Gweithffyrdd
- Cynigion ymchwil ac arloesi
- Mesur Canlyniadau Meddal
- Dyfais ynni'r tonnau newydd
- Hwb Trafnidiaeth Port Talbot
- Penodi Cadeirydd
- Cynnydd

Sut y gall Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe helpu:

- Gwybodaeth ac arweiniad ynghylch sut y mae gweithrediad au'r Gronfa Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn cyd weddu â blaenoriaethau strategol y rhanbarth.
- Hybu cyswllt rhwng partneriaid mewn gweithrediadau arfaeth edig er mwyn datblygu cydweithrediad gwirioneddol effeithiol
- Sicrhau budd a mewnbwn i'r rhanbarth gan weithrediadau strategol cenedlaethol.
- Nodi cyfleoedd i gydweithio neu ychwanegu gwerth, a llei hau'r risg o ddyblygu drwy hyrwyddo integreiddio ar draws cronfeydd Ewropeaidd.
- Cefnogi'r broses o fonitro a gwerthuso'r rhaglenni'n rhan barthol, yn ogystal â'r gwersi a ddysgwyd/arferion da.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ynghylch datblygiadau a blaenoriaethau rhanbarthol.

iMap Bae Abertawe



Yn ddiweddar, lansiodd Dinas-ranbarth Bae Abertawe [iMap](#), sef offeryn rhyngweithiol sy'n rhoi trosolwg cynhwysfawr o leoliadau busnes strategol, tir datblygu a chyfleoedd buddsoddi ar draws y rhanbarth ac sy'n brif offeryn gweledol ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd mewnfuddsoddi yn y rhanbarth.


Fargen Ddinesig 'Arfordir y Rhyngrwyd'

Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn cyflwyno cais am Fargen Ddinesig 'Arfordir y Rhyngrwyd' gwerth dros £500 miliwn i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru

Mae'n ceisio manteisio ar y chwyldro digidol i gyflymu twf hirdymor cynaliadwy ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe, ac er budd gweddill Cymru a'r DU, gan ganolbwyntio ar dri maes allweddol: ynni, I echyd a ffyniant economaidd.

Yn ei hanfod, yn sgil y Fargen Ddinesig, bydd Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn fainc arbrofi enfawr sy'n creu, treialu ac yn masnacheiddio'n fyd-eang ddatrysiadau clyfar ar y rhyngrwyd a fydd yn trawsnewid yr economi leol, economi Cymru ac economi'r DU, a'r sectorau ynni ac iechyd, yn debyg iawn i'r ffordd y mae'r rhyngrwyd eisoes wedi trawsnewid y diwydiant telegyfathrebu.

Mae'n ceisio crynhoi pecyn cyllido o fwy na £500 miliwn dros yr 20 mlynedd nesaf o ffynonellau preifat a chyhoeddus, er mwyn cyflawni gweledigaeth sy'n cefnogi amcanion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru o ran twf economaidd, cynhwysiant cymdeithasol a chynaliadwyedd, tra'n unioni'r bwch o ran ffyniant rhwng Bae Abertawe a gweddill Cymru a'r DU.



Arloesedd ym maes Ynni

A ydych yn gweithio yn y Sector Ynni a'r Amgylchedd? A ydych yn ymwybodol o arian sydd ar gael gan yr UE?

Mae'r sector Ynni a'r Amgylchedd yn prysur ddod yn un o amlygrwydd a phwysigrwydd heb ei ail yng Nghymru, ac o ganlyniad, bydd Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe yn cynnal gweithdy Effeithlonrwydd Ynni ac Ynni Cynaliadwy. Cynhelir y gweithdy yn Bloomfield House, Arberth, ar 8 Rhagfyr 2016, 09:30-12:30.

Bydd y gweithdy'n rhoi darlun o'r cyfleoedd ariannu sydd ar gael drwy'r UE, pa syniadau prosiect sy'n cael eu datblygu yn y sector a bydd cyfle i gwrdd â phobl o'r un maes diddordeb.

Mae lleoedd yn gyfyngedig, felly i archebu eich lle heddiw, cliciwch [yma](#).



Cwestiynau Cyffredin wedi'r Refferendwm

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi tudalen ynghylch pynciau a godir yn fynych ers refferendwm yr UE. Gallwch ei gweld yma:

<https://businesswales.gov.wales/cy/brexit-faq-cy>

Ydych chi'n ystyried gwneud cais am arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop? A oes angen gwybodaeth allweddol arnoch am gyflogaeth a sgiliau yn Ne-orllewin a Chanolbarth Cymru?



Regional Learning and Skills Partnership
Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol

South West & Mid Wales
De-Orllewin a Canolbarth Cymru

Mae'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol wedi cyhoeddi'n ddiweddar y fersiwn ddiweddaraf o'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau, De-orllewin a Chanolbarth Cymru er mwyn llywio a chefnogi ymagwedd strategol Llywodraeth Cymru at ddarparu cyflogaeth a sgiliau, ar y cyd â'r ddwy Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol arall.

I lawrlwytho'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau , South West and Mid Wales cliciwch [yma](#). I gael rhagor o wybodaeth am waith y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol cliciwch [yma](#).

Gweithffyrdd

Mae Gweithffyrdd, a arweinir gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot, yn cynnig cyfleoedd hyfforddiant a phrofiad gwaith â thâl i 4,000 o bobl sy'n ddi-waith ers amser maith, er mwyn eu helpu i gael eu bywydau yn ôl ar y trywydd iawn.

Mae'r cymorth yn targedu pobl dan anfantais, gan eu helpu i gymryd eu camau cyntaf i'r farchnad lafur, neu i fod yn rhan ohoni unwaith eto.

Cyswllt rhanbarthol: Oonagh Gavigon - 01639 684250 / E-bost workways@npt.gov.uk

Adolygu'r Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd

Dros y misoedd nesaf, bydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn adolygu'r Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd ac yn ceisio adborth rhanbarthol drwom ni fel rhan o'r broses hon.

I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch [yma](#).

Cyllid yr UE ar gael ar gyfer cynigion ymchwil ac arloesi

Mae tua £40m o gyllid yr UE ar gael ar gyfer cynigion arloesol sy'n gallu troi ymchwil ac arloesi'n gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol newydd gwell.

Mae croeso i sefydliadau o bob math (y sector preifat, y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector) a sefydliadau sydd heb ddefnyddio Cronfeydd Strwythurol yr EU wneud cais am y cyllid hwn.

Am fanylion llawn cliciwch [yma](#)

Mesur Canlyniadau Meddal

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi trefnu cyfres o gyrsiau i roi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i ddysgwyr gynllunio a gweithredu system ar gyfer cofnodi canlyniadau meddal yng nghyd-destun cyllid yr UE.

Bydd y cwrs yn cael ei gynnal yng Nghaerfyrddin ar 8 Rhagfyr 2016.

I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch [yma](#).

Penodi Cadeirydd

Penodi Cadeirydd Newydd i oruchwylio'r gwaith o fonitro cronfeydd yr UE yng Nghymru

Mae Julie Morgan AC wedi'i phenodi'n Gadeirydd newydd pwyllgor sy'n helpu i sicrhau bod Cymru'n manteisio i'r eithaf ar gronfeydd yr UE.

Mae Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru yn gyfrifol am fonitro gweithrediad effeithiol Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yng Nghymru, sy'n darparu cymorth i helpu pobl i gael gwaith, sbarduno twf busnes ac arloesedd, yn ogystal â chymorth i gymunedau gwledig.

Darllenwch ymlaen.

Golau gwyrdd i Hwb Trafnidiaeth Newydd ym Mhort Talbot

Bydd yr Hwb, a fydd wedi'i leoli ger gorsaf Parkway a ailadeiladwyd yn ddiweddar, yn ganolbwynt i drafnidiaeth yn yr ardal. Mae'n cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru (£2.7 miliwn) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (£2.5 miliwn).

Dywedodd y Cynghorydd Ali Thomas OBE, Arweinydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot: *"Bydd yr Hwb Trafnidiaeth integredig newydd yn ddatblygiad allweddol i Gastell-nedd Port Talbot wrth inni weithio i wella cysylltedd a hybu twf economaidd i'n cymunedau lleol."*

Dyfais ynni'r tonnau newydd i'w datblygu yn Sir Benfro

Mae'r cwmni Wave-tricity o Gernyw wedi sicrhau £4 miliwn o gyllid yr UE, drwy Lywodraeth Cymru, er mwyn datblygu a phrofi dyfais newydd o'r enw Ocean Wave Rower.

Y prosiect hwn yw'r buddsoddiad diweddaraf i helpu i greu sector ynni'r môr blaengar yng Nghymru.

Darllenwch ymlaen

Cynnydd

Mae'r £ 19m cynllun Cynnydd yn targedu pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg a trwy gysylltiad, yn y perygl mwyaf o fod yn NEET. Mae Cynnydd yn darparu ystod o ymyriadau a fydd yn helpu pobl ifanc i symud ymlaen ymhellach mewn addysg a gwella eu rhagolygon gwaith a gyrfa yn y dyfodol. Mae'r prosiect yn gweithio ar draws siroedd Caerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Bydd y cymorth yn cynnwys mentora unigol, hyfforddi a chwnsela, cyrsiau i wella sgiliau sylfaenol, hunan-barch a sgiliau bywyd, a phrofiad gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli.

Cyswllt rhanbarthol: Geraldine O'Donnell, Rhif ffon: 01437 775790 / E-bost:

Geraldine.odonnell@pembrokeshire.gov.uk

Cysylltwch a ni

Tim Ymgysylltu Rhanbarthol Dinas Bae Abertawe,
Business Resource Centre,
Parc Amanwy,
Ammanford.
SA18 3EP

01554 742473 / swanseabayret@sirgar.gov.uk

